

Y Gwir Anrhydeddus Oliver Dowden CBE AS

Ysgrifennydd Gwladol dros Faterion Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon

100 Parliament Street

Llundain

SW1A 2BQ

Dyddiad | Date: 5 Chwefror 2021

Pwnc | Subject: Setliad y Ffi Drwydded 2022

Annwyl Oliver,

Deallaf eich bod wedi ysgrifennu at S4C i ofyn i'r sefydliad gyflwyno gwybodaeth ariannol sy'n berthnasol i'ch gwaith paratoi o ran y Setliad Ffi Drwydded nesaf sy'n dechrau ym mis Ebrill 2022.

Fel y nodwyd yn eich llythyr at Owen Evans, dyddiedig Tachwedd 2020, mae'r Siarter Brenhinol (erthygl 43.5) yn ei gwneud yn ofynnol i'r BBC gyflwyno unrhyw wybodaeth y bydd [y gallwch] gofyn yn rhesymol amdani mewn cysylltiad â'ch [penderfyniad] o ran y setliad cyllid, ac 'l gydnabod safle unigryw S4C fel yr unig ddarlledwr Cymraeg, a'ch model gweithredu unigryw, [rydych] wedi cytuno y bydd y BBC a S4C, at ddibenion yr ymarfer hwn, yn dychwelyd gwybodaeth ar wahân.'

Rwy'n croesawu'r cyfle hwn i S4C ddarparu rhagor o fanylion o ran ei effaith economaidd, ei allbwn creadigol a'r gwerth o ran gwasanaeth cyhoeddus y mae'n ei ychwanegu at y cyfryngau yma yng Nghymru.

Hoffwn ychwanegu rhai o ganfyddiadau ein hymchwiliad fel Pwyllgor i rôl S4C, a gyhoeddwyd yn 2017. Un o'r prif bryderon a nodwyd yn ystod yr ymchwiliad hwnnw oedd lefel y cyllid ar gyfer S4C. Roedd yr Adroddiad yn nodi'r cefndir:

'Mae S4C wedi wynebu toriadau sylweddol yn y blynyddoedd diwethaf. Yn 2011-12, cafodd S4C £101 miliwn gan Lywodraeth y DU. Byddai angen i'r dyraniad cyllid hwnnw fod yn tua £111 miliwn bellach pe bai wedi cadw i fyny â chwyddiant. Yn lle hynny, mae cyllid S4C wedi cael ei dorri i ddim ond £81.3 miliwn yn 2016-17. Er bod adolygiad yr Adran dros Faterion Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yn cynnig cyfle i edrych ar yr ystod lawn o faterion sy'n effeithio ar S4C ar hyn o bryd, gan gynnwys yr hyn a olygir gan gyllid teg i'r sianel, credwn fod y toriadau hyn wedi bod yn ddifrifol ac yn anghymesur.

Daeth y Pwyllgor i'r casgliad 'Yn gyffredinol, mae'r newidiadau wedi golygu bod S4C wedi wynebu toriadau i'w chyllideb sy'n o leiaf 36 y cant mewn termau real ers 2010'.

Cytunodd yr Aelodau:



**Senedd Cymru**

Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN

SeneddDGCh@senedd.cymru

0300 200 6565

**Welsh Parliament**

Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN

SeneddCWLC@senedd.wales

0300 200 6565

'Mae'n gwbl amlwg inni fod y gostyngiadau cyllid a ddiodefyd gan S4C wedi cael, ac yn cael, effaith barhaol a difrifol ar ei gallu i ddarparu ei gwasanaeth. Nid oedd unrhyw anghytuno rhwng y tystion bod cyllid S4C bellach yn annigonol ac mae angen ei gynyddu'n sylweddol. Os na fydd hyn yn digwydd, efallai y bydd y gwasanaeth yn dirywio i'r pwynt lle bydd yn methu â chynnal diddordeb a chefnogaeth y gynulleidfa y mae'n ei gwasanaethu heb sôn am ddatblygu'r gwasanaethau newydd sydd eu hangen ar gyfer y byd digidol modern.'


Yn seiliedig ar dystiolaeth yr ymchwiliad, roedd argymhellion yr Adroddiad hwnnw yn cynnwys:

- [y dylid cael] cydnabyddiaeth o faint y toriadau y mae S4C wedi'u dioddef ers 2011-12 gyda chyllid yn y dyfodol yn seiliedig ar ddiffiniad clir o ofynion y gwasanaeth y disgwylir i S4C ei ddarparu a phennu cyllid ar lefel sy'n galluogi S4C i fodloni'r gofynion hyn yn llwyddiannus.
- pa bynnag drefniadau cyllido y cytunir arnynt ar gyfer S4C yn dilyn adolygiad yr Adran dros Faterion Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, y dylai adolygiadau ac asesiadau annibynnol rheolaidd o anghenion cyllido S4C fod yn nodwedd o unrhyw setliad newydd.
- [y dylid sicrhau] mecanwaith ar gyfer sicrhau bod incwm S4C yn cael ei gynyddu yn unol â chwyddiant yn cael ei gynnwys ym mha bynnag setliad cyllid y cytunir arno yn dilyn adolygiad yr Adran dros Faterion Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon.
- y dylid rhoi ystyriaeth i gysylltu trefniadau ariannu ac adolygu S4C i rai'r BBC;
- y dylai'r Adran dros Faterion Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon barhau i ddarparu rhan sylweddol o arian cyhoeddus S4C.

Ers cyhoeddi'r Adroddiad hwn mae wedi dod yn amlwg bod cyllidebau sylweddol ar gyfer cynnwys gan y cewri ffrydio ar-lein, fel Netflix ac Amazon, yn ei gwneud hi'n anoddach i S4C gystadlu am wylwyr. Yn anffodus nid yw'r cynnydd o ran cynnwys ffrydio wedi arwain at gynnydd o ran cynnwys yn y Gymraeg. Mae hyn yn rhoi rhagor o frys byth i'r angen am arian cyhoeddus i gefnogi'r gwaith o gynhyrchu a darlledu cynnwys Cymraeg.

O ystyried maint y pwysau o ran cyllido ar S4C, a nodwyd yn ein Hadroddiad yn 2017, a'r ffaith bod byd y cyfryngau aml-sianel yn cynyddu'r angen i S4C wneud popeth o fewn ei gallu i gystadlu â gwasanaethau gwyllo ar-alw a sianeli'r rhyngwlad, mae'n bwysicach nag erioed bod S4C yn derbyn arian digonol i'w galluogi i barhau i ffynnu.

Yn gywir,



Bethan Sayed AS

Cadeirydd y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu

